# TELERAU AC AMODAU GWERSYLL YR URDD CAERDYDD

Mae'n allweddol eich bod yn darllen, deall ac yn derbyn yr amodau canlynol cyn arwyddo y Ffurflen Archebu a llogi cyfnod yn y gwersyll.

**1. EICH TÂL GWERSYLL**
Eich Tâl Gwersyll yw cyfanswm tâl eich cwrs – a fydd yn cael ei osod naill ai yn ôl y pen neu fel tâl cyfanswm am yr holl gwrs. Nid yw'r tâl gwersyll yn cynnwys ychwanegiadau megis costau teithio neu unrhyw weithgareddau ychwanegol, tâl mynediad i atyniadau, ayb. Dylai arweinydd y grwp dalu am y gweithgareddau hyn yn uniongyrchol i'r cyflenwr ar y pryd. Rydym yn cynghori pob cwrs i sicrhau yswiriant canslo.

**2. LLOGI CYFNOD DROS DRO**
Yn ddibynnol ar argaeledd, rydym yn medru cadw cyfnod yng Ngwersyll Caerdydd am **28 diwrnod**. Rhaid cadarnhau pob llogi cyfnod trwy lenwi ac arwyddo y Ffurflen Archebu a thalu blaendal ddiad-dal o 25%. Wrth arwyddo y Ffurflen Archebu rydych yn arwyddo cytundeb ac yn ymrwymo eich hun i dalu y Tâl Gwersyll. Mae eich cytundeb gydag Urdd Gobaith Cymru, elusen gofrestredig (rhif 524481) a chwmni cyfyngedig dan warant (rhif 263310), wedi'i gofrestru yng Nghymru, a'i swyddfa gofrestredig yw Swyddfa'r Urdd, Heol Llanbadarn, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1EN. Mae'r cytundeb yn ddarostyngedig i gyfraith y wlad ac i awdurdod neilltuedig y llysoedd. Y cyfeiriad ar gyfer pob gohebiaeth ar bob mater sy'n ymwneud â'r cytundeb hwn yw Gwersyll yr Urdd Caerdydd, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL.

**3. TALIADAU**
Unwaith mae'r Ffurflen Archebu wedi'i arwyddo a'r blaendal wedi'i dalu mae'r archeb yn un cadarn. Ni ad-dalir y blaendal. Os gwneir yr archeb lai na chwe wythnos cyn dyddiad cychwyn y cwrs, mae'r Tâl Gwersyll llawn yn ddyledus wrth archebu. Mae gweddill y Tâl Gwersyll yn ddyledus dim llai na phedair wythnos cyn dyddiad cychwyn y cwrs. Pe na thelir y Tâl Gwersyll, mae'r Urdd yn cadw'r hawl i ddileu eich cyfnod. Fe anfonebir ar wahân ar gyfer unrhyw daliadau ychwanegol a godir yn ystod cwrs, e.e. difrod neu golled offer neu eiddo arall, a bydd y taliadau hynny yn ddyledus ar dderbyn yr anfoneb.

**4. NEWIDIADAU NEU DDIDDYMU/CANSLO CWRS AR EICH RHAN CHI**
a) <u>Newidiadau</u>:
Os ydych yn dymuno newid manylion yr archeb ar ôl talu'r blaendal, fe wnawn ein gorau i gyflawni'r newid, ond ni ellir gwarantu bod hynny'n bosibl. Rhaid rhoi cais ysgrifenedig (post, e-bost neu ffacs) ar gyfer unrhyw newidiadau. Codir tâl gweinyddol o £15:00 ar gyfer pob newid, yn daladwy ar adeg y newid. Fel arfer, ni fydd newidiadau yn bosibl llai na chwe wythnos cyn dyddiad cychwyn y cwrs. Os, am ba bynnag rheswm, na allwn gyflawni'r newid, mae'r archeb wreiddiol yn parhau yn gytundeb cadarn.
b) <u>Diddymu/Canslo</u>
Os ydych yn dymuno diddymu eich cwrs rhaid i chi ein hysbysu yn ysgrifenedig (post, e-bost neu ffacs). Mae'r diddymiad yn dod i rym ar y dyddiad y derbyniwn eich neges. Derbynnir diddymiad cwrs i fyny at chwe wythnos cyn dyddiad cychwyn y cwrs ac fe ad-delir unrhyw Dâl Gwersyll llai y blaendal. Ni ad-delir unrhyw Dâl Gwersyll os diddymir cwrs llai na chwe wythnos cyn dyddiad cychwyn y cwrs ac os na fydd y Tâl Gwersyll wedi'i dalu yn llawn, ac os na fydd yr Urdd yn medru ail lenwi'r cyfnod mewn byr rhybudd, bydd y Tâl Gwersyll yn parhau yn ddyledus. Rydym yn eich cynghori yn gryf i sicrhau yswiriant yn erbyn diddymu eich cwrs.

**5. NEWIDIADAU NEU DDIDDYMU/CANSLO CWRS AR RAN URDD GOBAITH CYMRU**
a) <u>Man Newidiadau</u>: Oherwydd natur y cyrsiau, o dro i dro mae'n ofynnol arnom i wneud newidiadau bach ac yr ydym yn cadw'r hawl i wneud hynny. Ymdrechir i'ch hysbysu o'r rhain cyn gynted ag sy'n bosibl.

b) <u>Newidiadau Mawr</u>: Mae newidiadau mawr yn cynnwys cwtogi hyd y Cwrs mwy na 24 awr. Mewn achos lle bo rhaid i ni wneud newid mawr cyn dyddiad cychwyn y Cwrs, fe'ch hysbysir cyn gynted ag sy'n bosibl a rhoi cynnig i chi: i) derbyn y trefniadau diwygiedig; ii) canslo'r Cwrs a derbyn ad-daliad llawn.

Os oes rhaid i ni wneud newid mawr unwaith mae'r Cwrs wedi dechrau, ni ellir canslo os y gallwn gynnig trefniadau eraill addas.

**6. LLEIAFSWM NIFEROEDD**
Rydym yn cadw'r hawl i ganslo Cwrs. Os digwyddir hynny, ymdrechir i roi o leiaf 4 wythnos o rybudd mewn ysgrifen cyn dyddiad cychwyn y Cwrs. Os oes yna le ar gwrs arall neu gyfnod arall, cynigir hynny i chi. Os nad oes lle/cyfnod arall ar gael cynigir ad-daliad llawn.

**7. FORCE MAJOURE**
Ni fyddwn yn gyfrifol i dalu iawndal os fe orfodir ni i ganslo neu newid unrhyw agwedd o'r Cwrs oherwydd amgylchiadau tu hwnt i'n rheolaeth, lle na fydden ni, na'n cyflenwyr, wedi medru yn rhesymol rhagweld na ragrwystro. Mae amgylchiadau o'r fath yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i ryfel neu fygythiad o ryfel, gweithgaredd terfysgol, terfysgoedd neu anhrefn sifil, anghydfodau diwydiannol, trychinebau naturiol neu niwclear, tân, tywydd drwg, cau meysydd awyr, porthladdoedd neu orsafoedd, canslo neu newid amserlenni cludwyr awyr, tir neu'r môr.

**8. YSWIRIANT**
Cynghorir chi yn gryf i sicrhau Yswiriant Canslo pan yn archebu eich Cwrs.

**9. IECHYD**
Danfonir Tystysgrifau Iechyd i chi ynghyd â gwybodaeth bellach. Dylid llenwi'r ffurflen a'i ddod gyda chi pan fyddwch yn cyrraedd y gwersyll ar ddechrau y Cwrs. Rhaid i bawb ddatgan unrhyw anafiadau neu afiechydon difrifol diweddar. Ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb dros anhwylder neu waethygu anhwylder a dioddefwyd yn ystod neu ar ôl y Cwrs oherwydd ni ddatgelwyd anafiadau neu afiechyd blaenorol. Ni all neb sydd wedi bod mewn cysylltiad gydag afiechyd heintus ymgymryd â gweithgareddau Gwersyll yr Urdd Caerdydd oddi fewn i'r cyfnod cwarantîn arferol. Tra'n cymryd rhan mewn Cwrs, rhaid i bawb gydymffurfio gyda'n rheolau diogelwch a disgyblaeth. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb dros eich diogelwch os ydych yn fwriadol yn torri y rheolau hyn, a chanlyniad posibl ymddygiad o'r fath yw eich anfon adre (gweler *Ymddygiad* isod). Dylid cyfeirio pob ymholiad penodol yn ymwneud â iechyd a diogelwch i'r Cyfarwyddwr.

**10. YMDDYGIAD**
Mae'n ofynnol i'r archebwr ar adeg archebu, ddatgelu yn llawn i Wersyll yr Urdd Caerdydd ac i'w gadarnhau yn ysgrifenedig, unrhyw afiechyd, anabledd, problemau cymdeithasol neu ymddygiadol sydd eisoes gan y gwersyllwr neu gyflwr sydd newydd ymddangos, a all effeithio ar y gwersyllwr neu gwersyllwyr eraill yn ystod y Cwrs. Cedwir yr hawl o wahardd unrhyw wersyllwr cyn neu ar ôl cychwyn y Cwrs os nad ydym wedi derbyn yr wybodaeth gyflawn yn ôl barn y Rheolwyr neu os yw ei ymddygiad yn anghydnaws o gymharu â'r gwersyllwyr eraill. Os fydd hyn yn digwydd, bydd yr archebwr yn gyfrifol am unrhyw gostau ychwanegol a godir neu geisiadau gan drydydd parti, ac ni fyddwn yn atebol am unrhyw iawndal.

**11. TAFLENNI**
Mae unrhyw brisiau, datganiadau, disgrifiadau, darluniau, ffotograffau, lluniau neu unrhyw faterion eraill mewn unrhyw lenyddiaeth wedi'u gwneud gydag ewyllys da, ond nid oes gwarantiad eu bod yn fanwl gywir a'r bwriad yw creu darlun cyffredinol i gynrychioli ein nwyddau a gwasanaethau ac nid ydynt yn ffurfio unrhyw rhan o'r cytundeb rhyngom. Cedwir yr hawl i ddiwygio ein nwyddau a gwasanaethau o dro i dro fel nad yw y disgrifiadau a osodwyd yn ein taflenni neu lenyddiaeth arall yn union debyg i'r hyn a osodwyd yn y cynnig i chi.

**12. CWYNION**
Byddwn yn ceisio datrys problemau cyn gynted y tynnir ein sylw atynt. Os ydych eisiau cwyno yn ystod y Cwrs, cysylltwch â'r Rheolwr os gwelwch yn dda. Os na ellir datrys y broblem yn foddhaol, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr trwy lythyr oddi fewn i 28 diwrnod o ddiwedd y Cwrs gan osod y manylion llawn yn y cwyn. Cysylltir yn ôl oddi fewn 28 diwrnod o dderbyn eich llythyr.

**13. CANIATÂD RHIANT/GWARCHODWR**
Os oes gwersyllwyr o dan 18 oed ar eich Cwrs wrth archebu y Cwrs rhaid i riant neu warchodwr arwyddo'r Tystysgrifau Iechyd fel eu bod wedi'u darllen, deall a derbyn yr Amodau a Thelerau ac wedi rhoi eu caniatâd i fynychu a chymryd rhan yn y Cwrs. Ni chaniateir i unrhyw blentyn neu berson ifanc aros yng Ngwersyll yr Urdd Caerdydd heb oruchwyliaeth uniongyrchol oedolyn ar y raddfa 1:10.

**14. ATEBOLRWYDD**
Derbynnir atebolrwydd dros faterion sy'n codi o ganlyniad uniongyrchol i esgeulustod a/neu torri gytundeb o'n dyletswydd cytundebol i sicrhau gofal wrth wneud y trefniadau gan gynnwys unrhyw weithredoedd gan ein gweithwyr neu asiantwyr. Yng nghyd-destun cludiant awyr, môr neu reilffordd a'r ddarpariaeth llety, bydd ein hatebolrwydd ym mhob achos wedi'i gyfyngu yn unol â'r confensiynau rhyngwladol perthnasol. Bydd cludiant gyda chludwr penodol yn dod o dan amodau cludiant y cludwr hwnnw, a fydd yn cyfyngu neu yn ymwrthod atebolrwydd. Cymerir penderfyniadau gweithredol gan gludwyr awyr a meysydd awyr sy'n golygu oedi, dargyfeiriadau neu ail drefnu. Nid oes gennym unrhyw reolaeth dros benderfyniadau o'r fath ac felly ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb drostynt.

# GWERSYLL YR URDD CAERDYDD TERMS & CONDITIONS

It is vital you read, understand and accept the following conditions prior to signing your Booking Form and booking your Course.

**1. YOUR COURSE FEE**
The course fee is the total price for your stay which will be set either per person or for a total course fee. The course fee excludes any extras such as travel or any additional activities and admissions to places of interest, etc. These activities should be paid directly to the supplier by the group leader at the time of the undertaking of the activity. We advise that all courses take out cancellation insurance.

**2. PROVISIONAL BOOKINGS**
Subject to availability we can provisionally hold a place at Gwersyll Caerdydd for up to **28 days**. Provisional bookings must be confirmed by completing and signing a Booking Form and paying a non-refundable deposit of 25%. By signing the Booking Form you are entering into a Contract and you are committing to pay the Course Fee. Your Contract is with Urdd Gobaith Cymru, a registered charity (no. 524481) and a company limited by guarantee (no. 263310), registered in Wales, whose registered office is Swyddfa'r Urdd, Heol Llanbadarn, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1EN. The Contract is subject to the law of the land and the exclusive jurisdiction of the courts. The address for correspondence for all matters relating to this Contract is: Gwersyll yr Urdd Caerdydd, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL.

**3. FEES**
Once the Booking Form has been signed and the deposit paid the booking becomes firm. The deposit is non refundable. If the booking is made less than six weeks before the course date, the full Course Fee is payable with the booking. Payment of the balance for the total course fee is due not less than four weeks before the course date. In the event of non-payment of fees, the Urdd reserves the right to release your place. Supplementary charges which occur during a course, e.g. loss or damage to equipment or other property, photography etc, will be invoiced separately and such charges are due and payable on receipt of the invoice.

**4 AMENDMENT OR CANCELLATION BY YOU**
a) <u>Amendments</u>:
If you wish to change any of the booking details after payment of the deposit, we will do our best to make the change, but we cannot guarantee that it will be possible. Any amendments must be requested in writing (post, e-mail or fax). An administration fee of £15:00 will be charged per amendment, payable at the time of amendment. Amendments will not normally be possible less than 6 weeks prior to departure. If for any reason it is not possible to make a requested amendment, then the original booking remains a firm Contract.
b) <u>Cancellation</u>:
If you wish to cancel your Course you must notify us in writing (post, e-mail or fax). The cancellation takes effect from the date the notification is received by us. Cancellations will be accepted up to six weeks before the start of the course and fees paid, less deposit, will be refunded. Course fees will not be refunded if cancellation is made less than six weeks before the start of the course and if the Course Fee has not been paid in full, and if the Urdd cannot fill the period in such short notice the Course Fee will be due in full. We strongly advise that you take out cancellation insurance.

**5 AMENDMENT OR CANCELLATION BY URDD GOBAITH CYMRU**
a) Minor Changes:
Due to the nature of the courses, we occasionally have to make minor changes and we reserve the right to make these. We will endeavour to inform you of these as soon as possible.

b) Major Changes: Major changes include a reduction in the duration of the course by more than 24 hrs. In the event of us having to make a major change before the departure date, we will inform you as soon as possible, and offer you the choice of: i) accepting the changed arrangements ii) cancelling the course and receiving a full refund.

In the event of us having to make a major change once the course has started, you may not cancel if we can offer you suitable alternative arrangements.

**6. MINIMUM NUMBERS**
We reserve the right to cancel a Course. If this happens we will endeavour to give you at least 4 weeks notice in writing prior to the planned start date. If there is a place on an alternative Course or an alternative period available, we will offer it to you. If there is no place/period available we will offer you a full refund.

**7. FORCE MAJEURE**
We will not be liable to pay any compensation if we are forced to cancel or change any aspect of the Course due to circumstances beyond our control which we or our suppliers could not have reasonably foreseen or forestalled. Such circumstances include, but are not restricted to war or threat of war, terrorist activity, riots or civil strife, industrial disputes, natural or nuclear disasters, fire, bad weather, closure of airports, ports or stations, cancellation or changes in schedules by air, land or sea carriers.

**8. INSURANCE**
We strongly advise that you take out Cancellation Insurance when booking your Course.

**9. HEALTH**
A Health Certificate form will be sent to you with further information. You must complete this and return it with you at the start of the course. All prior injuries or serious illnesses must be declared by all participants. We can take no responsibility in the event of any ailment or aggravation of ailment suffered either during or after the Course which arises from an undeclared injury or illness. Nobody who has been in contact with an infectious disease may take part in Gwersyll yr Urdd Caerdydd activities within the normal quarantine period. Whilst taking part in a Course participants must comply with our safety and disciplinary regulations. We will take no responsibility for your safety if you wilfully contravene these regulations, and such behaviour may result in you being sent home (see *Behaviour* below). Any specific queries concerning health or safety should be directed to the Director.

**10. BEHAVIOUR**
The booker is required at the time of booking to fully advise Gwersyll yr Urdd Caerdydd, and follow up in writing, of any illness, disability, social or behavioural problems that a participant has, or has recently experienced, which might affect the participant or any other participants during their course. We reserve the right to exclude any participant before or after course commencement, if we have not been fully advised, in the opinion of the Managers, or if his/her behaviour is incompatible with other course participants. If this happens, the booker will be liable for all additional costs incurred or claims from third parties, and we will not be liable for any compensation.

**11. BROCHURES**
Any prices, statements, descriptions, illustrations, photographs, drawings or any other matters contained in any literature are made in good faith but are not guaranteed to be accurate and are intended merely to represent a general picture of our products and services and shall not form any part of the Contract between us. We reserve the right to amend our products and services from time to time so that the descriptions as set out in our brochures and other literature may not be identical with those set out in our proposal to you.

**12. COMPLAINTS**
We will try to sort out any problems as soon as you notify us of them. If you want to complain during the Course, please inform the Managers. If the problem cannot be sorted out satisfactorily, please notify the Director in writing within 28 days of the completion of the Course, setting out the full details of the complaint. We will reply to you within 28 days of the receipt of your letter.

**13. CONSENT OF PARENT/GUARDIAN**
If there are youngsters under the age of 18 at the time of making the booking, a parent or legal guardian must sign the Health Certificate as having read, understood and accepted these Terms and Conditions and as giving their consent for you to attend and to take part in the Course. No child or young person under the age of 18 is permitted to stay at Gwersyll yr Urdd Caerdydd without direct adult supervision at the agreed ratio of 1:10.

**14. LIABILITY**
We will accept liability for matters which arise as a direct result of our negligence and/or our breach of our contractual duty to exercise care in making arrangements for you including any acts of omission by our employees or agents. In respect of carriage by air, sea and rail and the provision of accommodation our liability in all cases will be limited in accordance with the relevant international conventions. Travel with a particular carrier will be subject to the conditions of carriage of that carrier, some of which may limit or exclude liability. Operational decisions may be taken by Air Carriers and airports resulting in delays, diversions or rescheduling. We have no control over such decisions and are therefore unable to accept responsibility for them.